**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 20 Hydref 2022 am 3.00 pm

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -**

**Siambr Y Cyngor**

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)
Y Cynghorydd W Lewis   Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd L A Tomkinson   Y Cynghorydd R Williams

**Zoom**

Y Cynghorydd J Bonetto   Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd J Smith   Y Cynghorydd G Hopkins

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

**Siambr Y Cyngor**

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol: -**

**Zoom**

Y Cynghorydd R Bevan   Y Cynghorydd J Edwards

## 101 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol C Middle ac W Owen.

## 102 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

11. CAIS RHIF: 22/0991.
Y Cynghorydd Danny Grehan, Personol, “Rydw i'n llywodraethwr yn yr ysgol.”

## 103 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998

## 104 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

## 105 COFNODION 08.09.22

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 8 Medi, 2022 yn rhai cywir, yn amodol ar gynnwys presenoldeb Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Smith yn y cyfarfod.

## 106 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

## 107 CAIS RHIF: 22/0783

**Cadw newidiadau presennol i'r ardd gefn (grisiau a deciau canol). Ailgyflwyno cais 21/0923/10. 3 PLEASANT HEIGHTS, PORTH, CF39 0LZ.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Amanda Pike (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Amlinellodd Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' gan drigolyn lleol yn gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafodaeth ddwys, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**108 CAIS RHIF: 22/0533**

**Caniatâd cynllunio amlinellol gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl ac eithrio mynediad ar gyfer adeiladu hyd at 765 o fetrau sgwâr o adeiladau diwydiannol (B1 / B2 / B8 hyblyg), cyfleusterau parcio, draenio a gwaith cysylltiedig (derbyniwyd cynlluniau wedi'u diweddaru ar 23/08/22) TIR YN YSTAD BRYNGELLI, LÔN Y DDÔL, HIRWAUN.**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Josh Downey (Asiant). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodwch:** Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes rhag pleidleisio ar yr eitem hon gan nad oedd yn bresennol ar gyfer y ddadl gyfan).

**109 CAIS RHIF: 21/0855**

**Cais i gymeradwyo materion wedi'u cadw'n ôl (ymddangosiad, tirlunio, cynllun, mynediad a graddfa) mewn perthynas â 15 annedd a gwaith cysylltiedig (yn unol â chaniatâd cynllunio amlinellol: 17/0195) (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 20/08/21) (Derbyniwyd Adolygiad Ecolegol ar 24/03/22) (Derbyniwyd Cynllun Safle diwygiedig ar 30/05/22) TIR Y TU ÔL I DERAS SIÔN, RHES Y GORON, CWM BACH, ABERDÂR.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais yn ddwys, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**110 CAIS RHIF: 22/0343**

**Adeiladu adeilad swyddfa deulawr newydd ac adeilad porthdy unllawr. UNED D A C, PUROLITE INTERNATIONAL LTD, PARC BUSNES LLANTRISANT, LLANTRISANT, PONT-Y-CLUN, CF72 8LF.**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**111 CAIS RHIF: 22/0600**

**Symud deunydd pwll glo o domen uchaf Llanwynno i safle ger tomen Tylorstown, sy'n cynnwys creu tirffurf newydd a gwaith ailbroffilio/sefydlogi safle'r domen uchaf, yn ogystal â draeniau**

**newydd, creu/gwella llwybrau mynediad, aildyfu llystyfiant a gwaith cysylltiedig. TIR YN NHOMEN UCHAF LLANWYNNO A THIR Y TU ÔL I DOMEN TYLORSTOWN, TYLORSTOWN, CF43 4UF**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Bevan, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei bryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth ddwys, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**112 CAIS RHIF: 22/0810**

**Annedd 6 ystafell wely, garej ynghlwm, man ychwanegol i barcio ceir. HEULWEN DEG, BYTHYNNOD Y GRAIG, GRAIG-WEN, PONTYPRIDD, CF37 2EF.**

Rhoddodd y Pennaeth Materion Cynllunio wybod i Aelodau y cafodd ffiniau safle'r cais eu nodi'n anghywir ar y cynllun gwreiddiol felly roedd yr ymgeisydd wedi cyflwyno cynllun llinell goch newydd. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gohirio penderfynu ar y cais tan gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol er mwyn caniatáu i ymgynghoriad ar y cais diwygiedig gael ei gynnal.

**113 CAIS RHIF: 22/0910**

**Amrywio amod 2 (cynlluniau wedi'u cymeradwyo) o ganiatâd cynllunio 22/0028/08 i wneud mân ddiwygiadau i ddyluniad wynebau'r adeilad a champfa newydd i'r chweched dosbarth, ac i'r cynllun tirlunio. YSGOL GYFUN BRYNCELYNNOG, HEOL PENYCOEDCAE, BEDDAU, PONTYPRIDD, CF38 2AE**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**114 CAIS RHIF: 22/0991**

**Amrywio amod 2 o ganiatâd cynllunio 21/0005/08, i ddarparu mynediad y Blynyddoedd Cynnar ar wahân i'r gât bresennol ar Fryn Bethania, gyda gwaith gwella'r briffordd cysylltiedig YSGOL GYNRADD CWMLAI, HEOL PENYGARREG, TONYREFAIL, PORTH, CF39 8AS.**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y

Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodwch:** Gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hopkins y cyfarfod yn ystod yr eitem yma).

**115 CAIS RHIF: 22/1041**

**Garej â tho gwastad gyda gwaith cysylltiedig 109 TŶ RHIW, TŶ RHIW, FFYNNON TAF, CAERDYDD, CF15 7RW.**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**116 CAIS RHIF: 21/0942**

**Ehangu ffin yr ardd a chreu ardal barcio, gosod gatiau mynediad pren a waliau terfyn newydd â blociau (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig a disgrifiad ar 07/08/2022) MERRIVALE, FFORDD LLWYDCOED, LLWYDCOED, ABERDÂR, CF44 0TW.**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 16 Rhagfyr 2021, lle penderfynodd Aelodau ohirio'r cais er mwyn trafod ymhellach gyda'r ymgeisydd i egluro cwmpas y cynigion (gweler Cofnod 147).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, ac yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn ddarostyngedig i'r 2 amod sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad diweddaraf.

**117 CAIS RHIF: 21/1283**

**Newid defnydd y llawr gwaelod o Ddosbarth Defnydd A2 (Swyddfa Fetio) i Ddosbarth Defnydd A3 (Siop Gludfwyd) a gosod ffliw echdynnu ar gefn yr eiddo ar gyfer y defnydd newydd (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 01/11/21) (Derbyniwyd yr Asesiad Sŵn ac Arogl ar 01/02/22) LADBROKES PLC, 45 HEOL YNYS-HIR, YNYS-HIR, PORTH, CF39 0EL.**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Edwards, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei phryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Amlinellodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi gynnwys dau lythyr 'hwyr' a ddaeth i law, un oddi wrth yr ymgeisydd yn cefnogi'r cais, ac un oddi wrth Gadeirydd Band Ynys-hir yn gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais, a gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn wreiddiol ar 21 Gorffennaf 2022, lle penderfynodd

Aelodau ohirio'r cais er mwyn casglu gwybodaeth bellach gan adran Iechyd y Cyhoedd mewn perthynas â'r effaith ar amwynder eiddo sydd y tu ôl i'r datblygiad arfaethedig (gweler Cofnod 28).

Bu trafodaeth ymysg yr Aelodau ynglŷn â'r adroddiad pellach, a **PHENDERFYNODD** Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad gwreiddiol y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodwch:** Cafodd cynnig ei eilio i wrthod y cais, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu ond ni chafodd y cynnig ei gymeradwyo).

## 118 CAIS RHIF: 22/0492/10

**Ardal barcio (ôl-weithredol) a mynediad cwrb isel dros lwybr troed cyhoeddus. 36 HEOL ABER-RHONDDA, PORTH, CF39 0BB.**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais, a gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn wreiddiol ar 21 Gorffennaf 2022, lle penderfynodd Aelodau ohirio'r cais i drefnu ymweliad safle a gafodd ei gynnal ar 9 Awst 2022. Cafodd y cais ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu ar 8 Medi 2022, lle penderfynodd Aelodau wrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu (gweler Cofnod 74).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl gwrthod cais yn groes i argymhelliad swyddogion ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu am y rheswm canlynol:

- Byddai'r ardal barcio a mynediad cwrb isel dros lwybr troed cyhoeddus yn arwain at leihau nifer y lleoedd parcio ar y stryd yn yr ardal lle mae galw mawr am y nifer bach o leoedd yn barod, ac yn creu peryglon i draffig o ganlyniad i beidio â gallu gweld yn bell allan o'r safle. Byddai hynny'n peryglu diogelwch cerddwyr a diogelwch ar y briffordd, yn ogystal â chael effaith ar lif y traffig. Mae'r cynnig felly yn mynd yn groes i Bolisi AW5 o Gynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

## 119 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau

Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 26/09/2022 a 07/10/2022.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.53 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**